**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

3 Gorffennaf 2024

Annwyl Adrian,

Ymgynghoriad ar adolygu Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 11 Mehefin, sy'n amlinellu rhai o'r materion a godwyd gennych chi a'r Pwyllgor yn flaenorol mewn perthynas â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013), a'r rhai sydd wedi dod i'r amlwg yn dilyn anghymwyso cyn-Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn ddiweddar.

Byddwch yn ymwybodol bod Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd yn nodi wyth cynnig allweddol i ddiwygio Deddf 2013, gan gynnwys symleiddio'r darpariaethau cyfredol sy'n ymwneud â phenodi aelodau anweithredol i Fwrdd SAC. Fodd bynnag, ymatebodd y Gweinidog i'r Pwyllgor ar 6 Ebrill 2022 yn nodi:

> *"Mae gen i ofn nad wyf i'n cytuno â chi bod yr achos ar gyfer y Bil yn un cryf. Mae'r Llywodraeth yn gwrthwynebu'r prif gynigion yn fater o egwyddor, ac nid yw'r Llywodraeth chwaith yn ystyried bod y materion sy'n weddill – yn rhai bychan ar y cyfan – yn rhai o flaenoriaeth. Mae'r Llywodraeth yn gwbl glir felly nad yw'n cefnogi'r broses o gyflwyno Bil."*

Ers hynny, ac yng ngoleuni digwyddiadau diweddar, rwyf wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog yn nodi yr hoffai'r Pwyllgor edrych eto ar weithrediad Deddf 2013. Yn ei ymateb, awgrymodd y Prif Weinidog fy mod yn cwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet (yr Ysgrifennydd Cabinet) i drafod y mater ymhellach. Nododd y Prif Weinidog fod Ysgrifennydd y Cabinet yn gefnogol i'r sgwrs honno gael ei chynnal ond rhybuddiodd fod adnoddau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd eu terfyn o ran cyflawni rhaglen ddeddfwriaethol bresennol y Llywodraeth.

Er mwyn bwrw ymlaen â thrafodaethau ar sut y gellir cyflawni newidiadau i Ddeddf 2013, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r diweddariad ar y newidiadau i Ddeddf 2013 yr hoffech eu cyflwyno, ac i'r rhai hynny gael eu nodi yn nhrefn blaenoriaeth, gan gychwyn o'r hyn rydych yn ei ystyried yn hanfodol i'r rhai sy'n ddymunol.

Rwy'n cytuno â'ch honiad y gallai mynd i'r afael â diffygion yn Neddf 2013 roi trefn archwilio gryfach, fwy cydlynol i Gymru a'r Senedd ar ôl 2026 a gobeithio y gallwn barhau i weithio gyda'n gilydd i bwyso am weithredu yn y maes hwn.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.